




**Cymun Bendigaid ar Gân** â Chysegru  
Bwrdd yr Allor, Adnewyddu Ymrwymiad i  
Weinidogaeth, Bendithio Olewau Sanctaidd,  
a ffarwelio â'r Esgob Cynorthwyol

3 Ebrill 2023 am 11.30am


**Choral Holy Eucharist** with the Consecration  
of the Altar-Table, the Renewal of  
Commitment to Ministry, the Blessing the  
Holy Oils, and farewell to the Assistant Bishop

3 April 2023 at 11.30am




**Cadeirlan  
Deiniol Sant  
ym Mangor**

Saint Deiniol's  
Cathedral  
in Bangor



# *Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.*

# *Welcome to Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.*



Rydych chi'n sefyll rwan  
lle safodd Deiniol bron i  
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn  
525, bu iddo gynnwll o'i  
gwmpas gymuned lawn  
ffydd, gobaith a chariad,  
gan godi o'i chwmpas  
ffens gyll—y **bangor**  
gwreiddiol—iddi'n gysgod  
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch  
chwithau, hefyd, eich  
cofleidio yma gan yr un  
ffydd, gobaith a chariad  
a gyhoeddir gennym  
heddiw ac sy'n ein  
cyfareddu o hyd.

You stand now where  
Deiniol stood almost a  
millennium and a half ago.

Here, in the year 525, he  
gathered around him a  
community of faith, hope  
and love, and raised  
around it a hazel fence—  
the original **bangor**—for  
shelter and sanctuary.

Our prayer is that you,  
too, will be embraced  
here by the same faith,  
hope and love that we  
proclaim and live by  
today.

# Yn y Cymun hwn...

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i Waed ef gyda ni. Ymgynullwn o bob cwr o'r esgobaeth i wneud hynny, yn bobl Dduw gyda'u Hesgobion, gan dyfu gyda'n gilydd yn Gorff Crist.

**1** Wrth inni ymgynnull, cysegrir Bwrdd yr Allor newydd y Gadeirlan. Yn weithred esgobol, mae i'r cysegru bedair elfen draddodiadol – eneinio, aroglarthu, gorchuddio a goleuo.

**2** Yna rydyn ni'n gwrandao ar ddarlenniadau o'r Beibl, gan ganfod yno arweiniad, her, cysur a newydd da gan Dduw. Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd yn y Drindod Sanctaidd ac, yn y Cymun hwn, trwy adnewyddu ein hymrwymiad i weinidogaeth.

**3** Yn galon i'n haddoliad heddiw, byddwn yn bendithio tri Olew Sanctaidd. Yna byddwn yn cymryd bara a gwin, byddwn yn gofyn am fendith gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r bara, ac – fel aelodau o Gorff toredig, trwsiedig Crist – byddwn yn Cymuno.

**4** Daw ein haddoliad i ben wrth inni ffarwelio â'r Esgob Cynorthwyol, gan ymadel wrth rannu yn ei bendith.

Waeth pa mor bell yn ôl y gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf, neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag aelod o dîm yr Gadeirlan.

# At this Eucharist...

At this Eucharist we will meet Christ in bread and wine, which become for us his Body and his Blood. We gather from across the diocese to do so, as the people of God with their Bishops, becoming the Body of Christ.

**1** As we gather, the new Nave Altar-Table of the Cathedral will be consecrated. An episcopal act, the consecration has four traditional elements – anointing, censuring, covering and lighting.

**2** We then listen to readings from the Bible, where we find guidance, challenge, comfort and good news from God. We respond by proclaiming our faith in the Holy Trinity and, at this Eucharist, by renewing our commitment to ministry.

**3** At the heart of our worship today, we will bless three Holy Oils. Then we will take bread and wine, we will ask for God's transfiguring blessing upon them, we break the bread, and – as the broken, mended Body of Christ that we ourselves are – we will make our Communion.

**4** Our worship ends with a farewell to our Assistant Bishop, and we depart sharing in her blessing.

No matter how long ago you last did so, you are welcome to make your Communion with us here today. If you would like to make your Communion for the first time, or to be Baptised, please speak to a member of the Cathedral team.



## Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

## Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

## Worshipping with us today

This booklet contains everything said and sung during our worship today. You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains. However, worship is not primarily something that we read or observe – it is an activity, in which we all participate, alongside those who are gathered with us and, we believe, alongside the whole company of heaven. Be sure, therefore, to look up; to notice colour, light, sound, movement and beauty; to raise up your voice; to take your full part; to be formed and transformed.

During our worship, we say and sing together the text **in bold type**. Translations into English are provided from Welsh and other languages. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✠. Other directions (rubrics) are offered **in red type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

## Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

If you have need of a gluten-free wafer (conforming to the canonical requirement for 20 parts gluten per million), please speak to a steward.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

## O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebot **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

**Buchedd Bangor** yw ein cylchgrawn newydd, gan gynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.

## Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

**1** I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR isod.

**2** Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswllt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio'ch cerdyn neu'ch ffôn.

**3** Rhowch rodd arian parod yn un o'r basgedi i gasglu rhoddion yng nghefn Corff yr Eglwys heddiw.

**4** I sefydlu rhodd Debyd Uniongyrchol misol, gyda'r opsiwn i ychwanegu Cymorth Rhodd, chwiliwch ar-lein am "Eglwys yng Nghymru Rhoi yn Syth" a dewis "Bro Deiniol" o dan "Buddiolwr".

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

**Buchedd Bangor**



**O'r Ddarllenfa From the Lectern**



## From the Lectern & Buchedd Bangor

Each week, a **From the Lectern** email is sent to subscribers with weekly notices and images from the life of the Cathedral and Ministry Area. If you're not already a subscriber, follow the QR code, or visit **cadeirlan.churchinwales.org.uk/Darllenfa/**

**Buchedd Bangor** is our new magazine, offering a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together. Pick up a copy of today, or follow the QR code to read online.

## Support

**This holy place of faith, hope and love, and all that takes place here, is sustained by your generosity.**

**1** To make an online donation on your phone today, scan the QR code below.

**2** Use our contactless donation point at the back of the Nave to tap your card or phone.

**3** Cash donations can be placed in one of the baskets set out at the back of the Nave.

**4** To set up a monthly Direct Debit donation, with the option to add Gift Aid, search online for "Church in Wales Gift Direct" and select "Bro Deiniol" under "Beneficiary".

**By making a donation, you'll be helping us to continue our essential work.**

**Cefnogaeth Support**



# Dodrefn newydd

**Ysgrifenna Siôn Rhys Evans:**

Mae bob amser yn hyfryd eich croesawu yma i'ch Cadeirlan. Rydych chi'n ymuno â chymuned y Gadeirlan heddiw ar adeg bwysig o newid, wrth i ni dderbyn, bendithio a dechrau gwneud defnydd o ddodrefn Corff yr Eglwys newydd.

Yma yng Nghadeirlan Deiniol Sant, rydym ni'n etifeddion heneb o bwys, ar safle sy'n dyddio'n ôl i Oes y Saint, ac i furiau sy'n sibrawd am Gruffydd ap Cynan ac Owain Glyndŵr, am Tomas Ysgefitwn a'r holl addolwyr a cherddorion a phererinion a fu yma dros genedlaethau lawer. Cawn yn yr hanes dwfn hwnnw adlais o drosogynoldeb ein Duw digyfnewid.

Mae ein Cadeirlan hefyd yn adeilad sydd wedi newid dros y canrifoedd. "Tir glas fu," canodd y bardd, Dafydd Trefor, yn gynnar yn yr unfed ganrif ar bymtheg, o sefyll yng Nghorff yr Eglwys a oedd newydd ei thoi. Pan ymwelodd George Gilbert Scott am y tro cyntaf â Bangor, barnodd nad oedd yma "ddim byd gwerth ei weld ond tair bwtres," ac arweiniodd waithe ailddatblygu ac addurno sylweddol ar y Gadeirlan. Mewn gwirionedd, y mae pob cenhedlaeth wedi gadael ei hól ar wead ein Cadeirlan, rhai trwy esgeulustod, ond y mwyafrif trwy eu gofal a'u dyheu am adeilad addas i'r pwrpas o gyhoeddi'r Efengyl yn eu hoes bresennol.

## Ein cyfraniad

Un o'r cyfraniadau a wnawn ni yn y genhedlaeth hon yw darparu dodrefn newydd yng Nghorff yr Eglwys. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Cabidwl y

# New Nave furniture

**Siôn Rhys Evans writes:**

It is always wonderful to welcome you here to your Cathedral. You join the Cathedral community today at an important time of change, as we receive, bless and begin to make use of new Nave furniture.

We are inheritors here at Saint Deiniol's Cathedral of an ancient building, on a site that dates back to Deiniol's days, and whose stones speak to us of Gruffydd ap Cynan and Owain Glyndŵr, of Thomas Skeffington and the faithful worshippers, music-makers and pilgrims of many generations. We find in that deep history an echo of the transcendence of our unchanging God.

Our Cathedral is also a building that has changed over the centuries. "Here was grass," wrote the poet, Dafydd Trefor, early in the sixteenth century, standing in the recently roofed Nave. George Gilbert Scott, on first visiting Bangor, judged that there was "nothing worth seeing but three buttresses," and instigated a substantial redevelopment and decoration of the Cathedral. In truth, every generation has left its mark on our Cathedral's fabric, some through neglect, but more through their care and their yearning to have a building fit for the purpose of proclaiming the Gospel in their present age.

## Our contribution

One of the contributions to be made in this, our generation, is to be new Nave furniture. Over the last year, the Cathedral Chapter has been working

Gadeirlan wedi bod yn gweithio gyda Luke Hughes, un o ddylunwyr mwyaf blaenllaw'r byd o ddodrefn pwrpasol ar gyfer adeiladau cyhoeddus, i greu cynllun cynhwysfawr o ddodrefn.

## Pam y newid?

Mae'r cymhelliant ar gyfer dodrefn newydd Corff yr Eglwys yn ddeublyg.

Yn gyntaf, gallwn lawenhau bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o adeilad y Gadeirlan – nid yn unig ar y Sul, ond yn ystod yr wythnos. O'n defodau litwrgaidd dyddiol i ddatganiadau cerdd, ac o gyngherddau i grwpiau plant bach ac ymweliadau ysgol, mae ein Cadeirlan yn fwrlwm o weithgareddau bob dydd o'r wythnos. Roedd ein celfi presennol yng Nghorff yr Eglwys yn fwiadol drwm a sefydlog, ac wedi eu cynllunio i raddau helaeth ar gyfer arddull addoli Mudiad Cymun Plwyfol canol y ganrif ddiwethaf yn unig. Golygai hynny bod addasu cynllun Corff yr Eglwys ar gyfer cyngherddau, datganiadau a defnyddiau eraill – ac yna ail-osod ar gyfer addoliad – yn feichus, ac weithiau'n niweidiol ac yn beryglus. Mae angen dodrefn Corff yr Eglwys arnom a all fod yn hyblyg.

Yn ail, nid oedd addasiadau litwrgaidd y degawdau diwethaf wedi dod law yn llaw ag addasiadau cydlynol i gynllun dodrefnu Corff yr Eglwys. Tra bod Cwîr a Sentwar Scott wedi'i ddylunio'n hyfryd ac yn gyfannol ar gyfer y Gosber, roedd dodrefn yng Nghorff yr Eglwys wedi'u rhoi at ei gilydd mewn ffordd braidd yn chwit chwat dros y blynyddoedd. Dylai adeilad o'r pwysigrwydd hwn, ac addoliad Duw o'i fewn, gael ei gynnal a'i gefnogi gan ddodrefn hardd, wedi eu dylunio'n arbennig ar gyfer y gofod hwn ac i'n defnydd ni gyda gofal a manwl gywirdeb. Mae cynllun Luke Hughes yn cynnig celfi y gellir eu defnyddio'n hyblyg, ond sydd

with Luke Hughes, one of the world's foremost designers of bespoke furniture for public buildings, on a comprehensive scheme of new Nave furniture.

## Why the change?

The primary motivation for the new Nave furniture is two-fold.

First, we can rejoice that more use is being made of the Cathedral building – not only on Sundays, but during the week. From our daily liturgical observances through recitals and concerts to toddler groups and school visits, our Cathedral is buzzing with activity every day of the week. The existing furniture in the Nave was intentionally heavy and static, and designed in large part solely for the worshipping style of the Parish Communion Movement of the middle of the last century. It meant that adapting the layout of the Nave for concerts, recitals and other uses – and then restoring the Nave for worship – was cumbersome, and sometimes damaging and dangerous. We need Nave furniture that can be flexible.

Secondly, the liturgical adaptations of recent decades had not been accompanied by coherent adaptations to the Nave furnishing scheme. Whereas Scott's Quire and Presbytery is beautifully and holistically designed for Evensong, the furniture in the Nave had been assembled in a rather ad hoc way over the years. A building of this importance, and the worship of God within it, ought to be supported by beautiful furnishings, designed for this space and for our use with care and precision. The Luke Hughes scheme offers us furniture that can be flexibly deployed, but which is also a bespoke design for our Cathedral, produced to the highest standards.

hefyd yn rhan o gynllun pwrpasol ar gyfer ein Cadeirlan ac wedi'u cynhyrchu i'r safonau uchaf.

## Y cynllun cyfan

Mae'r cynllun cyfan yn cynnwys meinciau, corau'r côr (gyda darlithell arweinydd), bwrdd yr allor (gyda chadeiriau Gweinidogion, credfyrddau a darllenfa), a chadeiriau ychwanegol (na welir yma).

Mae gan ein meinciau newydd gefnau uchel a sedd ddofn, yn ogytall â phanel efydd yn seiliedig ar ddyluniad ffens cyll (y "bangor" gwreiddiol). Gellir storio ein meinciau newydd mewn pentyrrau o 5/6, sy'n golygu y gellir clirio llawr Corff yr Eglwys yn hawdd pan fydd angen hynny, gan roi inni hyblygrwydd sylweddol o fewn i'r adeilad. Maent hefyd wedi'u staenio i gyd-fynd â seddau'r Cwir a tho Corff yr Eglwys, ac, o'u gosod yn ffurfiol mewn parau, byddant yn rhoi naws draddodiadol i'r Gadeirlan.

Mae ein corau'r Côr newydd ac ysgafnach wedi'u staenio i gyd-fynd â'r meinciau, ac yn ymgorffori'r dyluniad efydd "bangor".

Mae ein bwrdd yr allor newydd wedi'i gynllunio i beidio â chystadlu â phensaerniaeth yr adeilad, sy'n dwyn y llygad i'r pen dwyreiniol, gan falchïo yn ei natur "dros dro", ond ag urddas. Caiff ein bwrdd yr allor newydd beth o'i ysbrydoliaeth o fainc saer – bwrdd gwaith â'i ddiben arbenigol; a chyfeiriad at weithdy Nazareth. Cliff hefyd beth o'i ysbrydoliaeth o ddarluniau traddodiadol o'r Swper Olaf, pan fydd Crist a'i ddisgyblion yn ein hwynebu, yn sefydliad y Cymun, wrth fwrdd â choesau tressel.

Mae ein cadeiriau ychwanegol newydd, y'u ddefnyddir pan fydd angen seddau i niferoedd mawr, yn pentyrru'n dynnach na'n cadeiriau presennol, a wedi'u lliwio i gydweddu â waliau'r Gadeirlan.

## The total scheme

The total scheme includes new pew-benches, Choir stalls (with a conductor's stand), an altar-table (with accompanying Ministers' chairs, credence tables and lectern), and additional chairs (not shown here).

Our new pew-benches have high backs and a deep seat, and include a bronze panel based on a hazel fence design (the original "bangor"). The pew-benches will stack, 5 or 6 high, meaning that the floor of the Nave can be cleared away easily when use requires it, allowing us much greater flexibility within the building. They are stained to match the Quire stalls and the Nave roof, and, when laid out formally in pairs, will give a traditional feel to the Cathedral.

Our new, lighter Choir stalls, are stained to match the pew benches, and incorporate the bronzed "bangor" design.

Our new altar-table is designed not to compete with the Cathedral's architecture, which draws the eye to the East end, owning its temporary nature, but with dignity. Our new altar-table draws some of its inspiration from a carpenter's bench – a working table with its particular, expert purpose; and a reference to the Nazareth workshop. It also draws some of its inspiration from traditional depictions of the Last Supper, when Christ and his disciples face us, at the Eucharist's institution, at a table with tressel legs.

Our new additional chairs, used when we need to seat large numbers, stack more tightly than our existing chairs, and are coloured to blend in with the Cathedral's walls.



## Yr arysgrif

Ar “wefus” tu blaen bwrdd yr allor, bydd brawddeg o farddoniaeth grefyddol yn Gymraeg yn cael ei gerfio. Mae’r ymadrodd wedi’i gyfansoddi ar ein cyfer gan Siôn Aled, y bardd coronog a aned ym Mangor.

Mae’r frawddeg, **“O’r graig las daw’n fras ddyfrhau holl lynnoedd gloyw’n llannau,”** yn cyfeirio at eiriau’r salmydd am brofiad yr Israeliaid yn yr anialwch (“Dygodd ffrydiau allan o graig, a pheri i ddŵr lifo fel afonydd;” Salm 78), sy’n dwyn i gof i ni hefyd, ar fwrdd yr allor, y ddŵr yn llifo o ystlys Crist ar y Groes er ein hiachawdwriaeth. Mae i’r ymadrodd hefyd gyfeiriadau lleol at lechi Dyffryn Ogwen, yr afon Adda yn llifo ger “bangor” Deiniol, a llannau Oes y Saint. Mae’r ymadrodd hefyd dwyn ysbrydoliaeth o osodiad Edmwnd Prys (y clerigwr o Fangor ac un o genhedlaeth William Morgan a’r cyfeithwyr cyntaf) o Salm 78 yn ei Salmau Cân, a hynny ym mhedwarcanmlwyddiant ei farwolaeth.

Mae’r ffurfdeip a ddefnyddir ar gyfer y llythrennau aur ar gefndir glas wedi’i ddylunio’n arbennig ar ein cyfer, ac yn dwyn ei ysbrydoliaeth o lawysgrifau crefyddol Celtaidd canoloesol (fel Llyfr Esgobol Bangor), o’r llythrennau cerfiedig ar rai o’r meini hirion cynnar a geir ledled ein hesgobaeth, ac o’r defnydd arddulliedig Fictoraidd o sgrïpt ganoloesol (fel a geir yn seddau’r Cwîr).

## Gweddïwch drosom

Gweddïwch â diolchgarwch dros y seiri a’r dylunwyr fu’n gweithio ar ein dodrefn. Gweddïwch hefyd am y defnydd a wneir o’r celfi newydd, i addoli Duw ac i gefnogi cenhadaeth a thystiolaethu ein Cadeirlan.

## The inscription

Into the front “return” or “lip” of the altar-table, a phrase of religious poetry in Welsh will be carved. The phrase has been composed for us by Siôn Aled, the Eisteddfod crowned bard who was born in Bangor.

Roughly translated as **“From the blue slate abundance flows to fill afresh our llannau’s wells,”** the phrase draws on the psalmist’s reference to the experience of the Israelites in the wilderness (“You brought streams out of the cliff, and the waters gushed out like rivers;” Psalm 78), which recalls for us also, upon the altar-table, the water flowing from the side of Christ upon the Cross for our salvation. The phrase also contains local allusions to the slates of the Ogwen Valley, the river Adda flowing past Deiniol’s “bangor”, and the “llannau” (the glades of the Celtic saints). The Welsh words also refer to the metrical psalms of Edmwnd Prys, the Bangor cleric who was part of the original generation of biblical translators and the 400th anniversary of whose death we mark this year.

The typeface used for the gold letters on a blue background, has been designed specially for us, and draws its inspiration from medieval Celtic religious manuscripts (such as the Bangor Pontifical), from the carved letters in some of the early standing stones found across our diocese, and from the Victorian stylized use of medieval script (such as is found in the Quire stalls).

## Pray for us

Please pray with thanksgiving for the carpenters and designers who have worked on our furniture. Please pray also for the use that will be made of the new furniture, for the worship of God and to support the mission and witness of our Cathedral.

Dyffryn Ogwen  
The Ogwen Valley



*Ymgynnull a Chysegru*  
*Gathering &*  
*Consecration*



### Codwn ar ein traed ar ganiad y gloch

We stand as the bell is rung

### Ar ran cymuned Ynys Enlli (man gorffwys 20,000 o saint a'r lle y claddwyd Deiniol Sant), cyflwynir pridd o'r ynys, a fydd yn cael ei osod o fewn Bwrdd yr Allor ger ein bron

On behalf of the community of Bardsey Island (the resting place of 20,000 saints and the burial place of Saint Deiniol), soil from the island is brought forth, which will be placed within the new Altar-Table

### Parhawn ar ein traed tan ddiwedd yr emyn

We remain standing until the end of the hymn

## Cyfarchiad Greeting

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

**Amen.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

**A hefyd gyda thi.**

#### Translation

✠ *In the name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit. Amen. ¶ The Lord be with you. And also with you.*

Through his Passion and Resurrection, our Lord Jesus Christ becomes the true and perfect temple of the New Covenant and gathers together a people to be his own. As our Lord Jesus Christ's holy people, we worship him, alongside the saints of all the ages, in spirit and in truth as the living stones of his Church.

This day we gather, with angels and archangels, to consecrate this Altar on which the sacrifice of our Lord Jesus Christ upon the Cross will be perpetuated in mystery, its grace flowing from this place as a mighty stream.

This day we gather, with saints, confessors, translators and martyrs, to consecrate this Table at which the Church will give thanks and receive the Body and Blood of our Lord Jesus Christ, perpetually washed in the water flowing from his side.



## Eneinio Anointing

### Mae'r Esgob yn eneinio ag Olew y Crism y groes, sydd ar batrwm Croes Penmon, yng nghanol Bwrdd yr Allor

The Bishop anoints with the Oil of Crism the cross, modelled on the Penmon Cross, at the centre of the Altar-Table

Bydded i Fwrdd yr Allor ger ein bron gael ei selio a'i sancteiddio yn enw'r ✠ Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân: er gogoniant i Dduw, ac er cof am Deiniol Sant a holl Saint Enlli.

**Amen.**



#### Translation

*May this Altar-Table be sealed and sanctified in the name of the ✠ Father, and of the Son, and of the Holy Spirit: to God's honour and in memory of Saint Deiniol and all the Saints of Bardsey. Amen.*

## Motét Motet

### Mae'r Esgob yn eneinio'r pedair croes arall ar Fwrdd yr Allor

The Bishop anoints the four other crosses upon the Altar-Table

### Mae'r Côr yn canu'r motet, gosodiad o'r geiriau sydd wedi'u harysgrifio ar flaen Bwrdd yr Allor, a gyfansoddiwyd yn arbennig ar gyfer y gwasanaeth hwn

The Choir sings the motet, a setting of the words inscribed on the front of the Altar-Table, composed specially for this service

O'r graig las daw'n fras ddyfrhau holl lynnoedd gloyw'n llannau.

#### Translation

*From the blue slate abundance flows to fill afresh our llannau's wells.*

#### Geiriau | Words

Siôn Aled

#### Cerddoriaeth | Music

Joe Cooper

## Gweddï Gasgl y Cysegru **Consecration Collect**

Gweddïwn.

**D**uw hollgyfoethog,  
yr hwn er anrhydedd iddo y cysegrwn ni,  
weision annheilwng,  
Fwrdd yr Allor ger ein bron;  
o'th drugaredd clyw ein gweddïau gostyngedig,  
a chaniatá i bob offrwm a wneir  
ar Fwrdd yr Allor ger ein bron  
fod yn gymeradwy o'th fodd,  
ac yn droch â gwllith dy Ysbryd:  
fel y bo i ti wastad wrando ein gweddï,  
derbyn ein haddunedau,  
a chryfhau ein dybenion da;  
yr hyn a ofynnwn trwy ein Harglwydd Iesu Grist,  
sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi, ein Tad,  
yn undod yr un Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**Amen.**

### **Translation**

*Let us pray. Almighty God, in whose honour we your unworthy servants consecrate this Altar-Table, graciously and mercifully give ear to our humble prayers, and grant that all offerings made upon this Altar-Table may be agreeable, acceptable and penetrated with the dew of your Holy Spirit: that, at all times you may hear our prayers, accept our vows, and strengthen our good purposes; through our Lord Jesus Christ, who lives and reigns with you, our Father, in the unity of the same Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.*

## Aroglarthu, Gorchuddio a Goleuo **Incensing, Covering and Lighting**

Mae aelodau Cabidwl Cadeirlan Deiniol Sant yn aroglarthu Bwrdd yr Allor, yn ei orchuddio â lliain teg, ac yn gosod Crog a chynnau canhwyllau arni

Members of the Chapter of Saint Deiniol's Cathedral incense the Altar-Table, cover it with a fair cloth, and place a Crucifix and lit candles upon it

### Emyn **Hymn**



**G**lân gerwbiaid a seraffiaid  
fyrdd o gylch yr orsedd fry  
mewn olynol seiniau dibaid  
canant fawl eu Harglwydd cu:  
“Llawn yw’r nefoedd o’th ogoniant,  
llawn yw’r ddaear, dir a môr;  
rhodder iti fythol foliant,  
sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd lôr.”

Heaven is still with glory ringing;  
earth takes up the angels’ cry,  
“Holy, holy, holy,” singing,  
“Lord of Hosts, the Lord Most High!  
Lord, thy glory fills the heaven,  
earth is with its fullness stored;  
unto thee be glory given,  
holy, holy, holy Lord.”

**Gyda'r seraff gôr i fyny,  
gyda'r Eglwys lân i lawr,  
uno wnawn fel hyn i ganu  
anthem clod ein Harglwydd mawr:  
"Llawn yw'r nefoedd o'th ogoniant,  
llawn yw'r ddaear, dir a môr;  
rhodder iti fythol foliant,  
sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd lôr."**

**Thus thy glorious name confessing,  
with thine angel hosts we cry,  
"Holy, holy, holy," blessing  
thee, the Lord of Hosts Most High.  
"Lord, thy glory fills the heaven,  
earth is with its fullness stored;  
unto thee be glory given,  
holy, holy, holy Lord."**

**Translation**

*Round the Lord in glory seated, cherubim and seraphim filled his temple, and repeated each to each the alternate hymn: ¶ With his seraph train before him, With his holy Church below, thus conspire we to adore him, bid we thus our anthem flow:*

**Geiriau | Words**

Richard Mant (1776-1848)

**Cyfieithiad | Translation**

Alafon (Owen Griffith Owen, 1847-1916)

**Cerddoriaeth | Music | "Sanctus"**

Isalaw (John Richards, 1843-1901)

**Eisteddwn**

We sit

Goleudy Penmon ac Ynys Seiriol  
The Penmon lighthouse and Priestholm



*Gair ac  
Adnewyddu Ymrwymiad  
Word &  
Renewal of Commitment*



## Darlleniad Reading

A reading from the Revelation to Saint John the Divine.

**B**ehold: To him who loves us and freed us from our sins by his blood, and made us to be a kingdom, priests serving his God and Father, to him be glory and dominion for ever and ever. Amen. Look! He is coming with the clouds; every eye will see him, even those who pierced him; and on his account all the tribes of the earth will wail. So it is to be. Amen. "I am the Alpha and the Omega," says the Lord God, who is and who was and who is to come, the Almighty.

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

Datguddiad | Revelation 1:5-8

**Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys**  
We stand, turning to face the Book of the Gospels in the Nave

## Efengyl Gospel



**Y** Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol. **R** **Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol.** **Y** Wele, y mae'n dyfod gyda'r cymylau, a bydd pob llygad yn ei weld. **R** **Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol.** **Y** Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r newydd da i dlodion.  
**R** **Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

**A hefyd gyda thi.**

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl ✕ Sant Luc.

**Gogoniant i ti, O Arglwydd.**

**B**ryd hynny: Dychwelodd Iesu yn nerth yr Ysbryd i Galilea. Aeth y sôn amdano ar hyd a lled y gymdogaeth. Yr oedd yn dysgu yn eu synagogau ac yn cael clod gan bawb. Daeth i Nasareth, lle yr oedd wedi ei fagu. Yn ôl ei arfer aeth i'r synagog ar y dydd Saboth, a chododd i ddarllen. Rhoddwyd iddo lyfr y proffwyd Ezeia, ac agorodd y sgrôl a chael y man lle'r oedd yn ysgrifenedig: "Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r newydd da i dlodion. Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd." Wedi cau'r sgrôl a'i rhoi'n ôl i'r swyddog, fe eisteddodd; ac yr oedd llygaid pawb yn y synagog yn syllu arno. A'i eiriau cyntaf wrthynt oedd: "Heddiw yn eich clyw chwi y mae'r Ysgrythur hon wedi ei chyflawni." Yr oedd pawb yn ei gymeradwyo ac yn rhyfeddu at y geiriau grasusol oedd yn dod o'i enau ef, gan ddweud, "Onid mab Joseff yw hwn?" Ac meddai wrthynt, "Diau yr adroddwch wrthyf y ddihareb, 'Feddyg, iachâ dy hun', a dweud, 'Yr holl bethau y clywsom iddynt ddigwydd yng Nghapernaum, gwna hwy yma hefyd ym mro dy febyd.'" Ond meddai, "Yn wir, rwy'n dweud wrthyfch nad oes dim croeso i'r un proffwyd ym mro ei febyd. Ar fy ngwir rwy'n dweud wrthyfch, yr oedd llawer o wragedd gweddw yn Israel yn nyddiau Elias pan gaewyd y ffurfafen am dair blynedd a chwe mis, ac y bu newyn mawr ar yr holl wlad. Ond nid at un ohonynt hwy yr anfonwyd Elias, ond yn hytrach at wraig weddw yn Sarepta yng ngwlad Sidon. Ac yr oedd llawer o wahangleifion yn Israel yn amser y proffwyd Eliseus, ac ni lanhawyd yr un ohonynt hwy, ond yn hytrach Naaman y Syriad." Wrth glywed hyn llanwyd pawb yn y synagog â dicter; codasant, a bwriasant ef allan o'r dref a mynd ag ef hyd at ael y bryn yr oedd eu tref wedi ei hadeiladu arno, i'w luchio o'r clogwyn. Ond aeth ef drwy eu canol hwy, ac ymaith ar ei daith.

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

## **Moliant i ti, O Grist.**

**Translation**

**R** Praise to you, O Christ, King of eternal glory. **V** He is coming with the clouds; every eye will see him. **V** The Spirit of the Holy One is upon me, because the Holy One has anointed me to bring good news to the poor. **C** The Lord be with you. And also with you. Listen to the Gospel of Christ according to **x** Saint Luke. Glory to you, O Lord. **C** At that time: Jesus, filled with the power of the Spirit, returned to Galilee, and a report about him spread through all the surrounding country. He began to teach in their synagogues and was praised by everyone. When he came to Nazareth, where he had been brought up, he went to the synagogue on the sabbath day, as was his custom. He stood up to read, and the scroll of the prophet Isaiah was given to him. He unrolled the scroll and found the place where it was written: "The Spirit of the Lord is upon me, because he has anointed me to bring good news to the poor. He has sent me to proclaim release to the captives and recovery of sight to the blind, to let the oppressed go free, to proclaim the year of the Lord's favour." And he rolled up the scroll, gave it back to the attendant, and sat down. The eyes of all in the synagogue were fixed on him. Then he began to say to them, "Today this scripture has been fulfilled in your hearing." All spoke well of him and were amazed at the gracious words that came from his mouth. They said, "Is not this Joseph's son?" He said to them, "Doubtless you will quote to me this proverb, 'Doctor, cure yourself!' And you will say, 'Do here also in your home town the things that we have heard you did at Capernaum.'" And he said, "Truly I tell you, no prophet is accepted in the prophet's home town. But the truth is, there were many widows in Israel in the time of Elijah, when the heaven was shut up for three years and six months, and there was a severe famine over all the land; yet Elijah was sent to none of them except to a widow at Zarephath in Sidon. There were also many lepers in Israel in the time of the prophet Elisha, and none of them was cleansed except Naaman the Syrian." When they heard this, all in the synagogue were filled with rage. They got up, drove him out of the town, and led him to the brow of the hill on which their town was built, so that they might hurl him off the cliff. But he passed through the midst of them and went on his way. **C** This is the Gospel of the Lord. Praise to you, O Christ.

Luc | Luke 4:14-30

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

We sit at the start of the sermon

## Pregeth **Sermon**

**Yr Esgob Cynorthwyol**  
The Assistant Bishop

**Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed**  
